

Makeshifting: structures of mobility by Daniel Baker

Overview of Works

***Canopy*: camouflage netting gilded with metal leaf, 600cm x 600cm, 2015**

Canopy does not provide much protection from the elements but instead it offers a different kind of shelter. By incorporating elements of the Gypsy aesthetic, in this case shininess and intricate patterning, *Canopy* draws attention whilst at the same time diverting the viewer from what lay beneath the silvery reflective surface. The interior of *Canopy* with its golden opulence draws association with Gypsy décor and its often lavish vibrancy.

***Knot Garden*: enamel paint, silver leaf and glitter on Perspex, 50cm x 50cm each, 2015**

The mirrors that form *Knot Garden* show rope work elements in various combinations and juxtapositions. The square red and yellow presentation of knots that form the main body of *Knot Garden* show adaptability and invention whilst at the same time symbolising communal and collective effort. The knots link to form a secure structure that frames and protects the singular red rope quoit at its centre. Surrounding knots clockwise from top centre are: *Figure of Eight Bend*, *Overhand knot*, *Surgeon's knot*, *Stopper knot*, *Triple Fisherman's knot*, *Figure of Eight knot*, *Fisherman's knot*, *Stevedore knot*. Other elements of *Knot Garden* series include the knots: *Poor Man's Pride*, *Square knot* and *Hangman's knot*.

***Analog*: enamel paint, silver and gold leaf on Perspex, 180cm x 60cm each, 2015**

Any attempt to step up the rungs of the climbing aids represented in *Analog* would of course prove fruitless. Here the shining ladders with their deceptive functionality mirror the breakdown of social mobility where the promises of improved living standards and working conditions remain an illusion for so many.

***Mobile Surveillance Device*: mirrored glass, steel and mixed media, 60cm x 60cm x 95cm, 2015**

The *Mobile Surveillance Device* employs the ephemera of low tech surveillance technology to present an improvised apparatus whose function is to keep track of us—wherever we are.

***Altered States*: polyester flags, 300cm x 450cm each, A6 postcards, 105mm x 148mm, 2015**

The flags that form the series *Altered States* show the wheel from the Roma flag resituated within the design of the flags of Wales, the United Kingdom and the European Union. The new flag designs become icons and symbols of integration and resistance. The harmonious layout of the new flag images describe an optimistic scenario of coexistence but at the same time denote the fact that Romani communities have existed within these nations for hundreds of years.

***Paper Ladder*: A4 paper and metal, 28cm x 27cm x 27cm, 2015**

The crumpled ladder again references the failed mechanisms of social-economic mobility where state aspiration toward social justice seems now to have been largely discarded.

***Tangle*: tow-ropes, polyester with metal hooks, each 400cm long, 2015**

Tangle—a collective noun for snakes, shows the ropes depicted in *Knot Garden*. Their former systematised interrelation seemingly abandoned for the slippery writhing of the wild.

Dros Dro: adeiladau mudoledd gan Daniel Baker

Trosolwg o'r Gwaith

Canopi: rhwyd guddliw wedi'i heuro â dalennau metel, 600cm x 600cm, 2015

Nid yw *canopi* yn cynnig fawr o amddiffynfa rhag y gwynt a'r glaw ond yn hytrach mae'n cynnig math gwahanol o loches. Drwy gynnwys elfennau o nodweddion y Sipsi, yn yr achos hwn mae patrwm gloyw a chywrain y *Canopi* yn hoelio'r sylw ac ar yr un pryd yn tynnu sylw'r gwylwr oddi wrth yr hyn sy'n gorwedd o dan yr arwyneb adlewyrchol ariannog. Mae tu fewn y *Canopi* gyda'i odidowgrwydd euraidd yn cysylltu â décor y Sipsi a'i afiaith mawr.

Gardd Addurnol: paent enamel, dalennau arian a gliter ar Berspex, 50cm x 50cm yr un, 2015

Mae'r drychau sy'n ffurfio'r *Ardd Addurnol* yn dangos elfennau o waith rhaff mewn amryw gyfuniadau a chyfosodiadau. Mae'r clymau coch a melyn sgwâr sy'n ffurfio prif gorff yr *Ardd Addurnol* yn dangos hyblygrwydd ac arloesedd ac ar yr un pryd yn symbol o ymdrech gymunedol a chyfunol. Mae'r clymau'n cysylltu â'i gilydd i ffurfio strwythur sy'n fframio ac yn diogelu'r goeten raff goch unigol yn ei ganol. Y clymau amgylchynol gyda'r cloc yw: *Cwlwm Wyth*, *Cwlwm Tros Law*, *Cwlwm y Llawfeddyg*, *Cwlwm Stopio*, *Cwlwm Triphlyg* y *Pysgotwr*, *Cwlwm Ffigur Wyth*, *Cwlwm y Pysgotwr*, *Cwlwm y Dociwr*. Mae elfennau eraill y gyfres *Ardd Addurnol* yn cynnwys y clymau: *Balchder* y *Tlotyn*, *Cwlwm Sgwâr* a *Chwlwm y Crogwr*.

Analog: paent enamel, dalennau arian ac aur ar Berspex, 180cm x 60cm yr un, 2015

Ofer fyddai ceisio dringo i fyny'r offer dringo a gynrychiolir yn *Analog*. Yma mae'r ysgolion gloyw gyda'u hymarferoldeb camarweiniol yn cyfleu methiant mudoledd cymdeithasol lle mae'r addewidion o ran gwella safonau byw ac amodau gwaith yn parhau i fod yn freuddwyd i lawer.

Dyfais Gwylidwriaeth Symudol: gwydr drychaid, dur a chyfrwng cymysg, 60cm x 60cm x 95cm, 2015

Mae'r Ddyfais Gwylidwriaeth Symudol yn defnyddio effemera gwylidwriaeth technoleg isel i gyflwyno offer byrfyfyr i gadw llygaid barcut arnom - ble bynnag y bôm.

Cenhedloedd o Newid: baneri polyester, 300cm x 450cm yr un, cardiau post A6, 105mm x 148mm, 2015

Mae'r baneri sy'n ffurfio'r gyfres *Cenhedloedd o Newid* yn dangos yr olwyn sydd i'w gweld ar faner y Roma wedi'i hailosod yn nyluniad baneri Cymru, y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Mae dyluniad y faner newydd yn dod yn eiconau ac yn symbolau o integreiddio a gwrthsafiad. Mae cynllun cydnaws y dyluniadau ar gyfer y faner newydd yn disgrifio senario obeithiol yn seiliedig ar gydfyw ond ar yr un pryd yn dynodi'r ffaith fod cymunedau Romani wedi bod yn bresennol yn y cenhedloedd hyn am gannoedd o flynyddoedd.

Ysgol Bapur: papur A4 a metel, 28cm x 27cm x 27cm 2015

Mae'r ysgol grychlyd unwaith eto'n cyfeirio at fethiant mecanweithiau mudoledd cymdeithasol-economaidd lle mae uchelgais y wladwriaeth i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol yn ymddangos fel petai wedi'i hesgeuluso i raddau helaeth.

Tangle/Nadreddu: rhaffau halio, polyester gyda bachau metel, pob un yn 400cm o hyd, 2015

Tangle yw'r enw torfol am nadroedd yn Saesneg, ac yn y gwaith hwn gwelir yr un rhaffau ac a ddefnyddiwyd yn yr *Ardd Addurnol*. Mae eu cydberthynas systematig flaenorol wedi'i gyfnwid am nadreddu llithrig y gwyllt.